# Cyngor Sir Penfro

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Mehefin 2010



**Cyf: 346A2010**
Llun trwy garedigrwydd Cyngor Sir Penfro.
Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Sir Penfro gan Non Jenkins (Arweinydd Asesu Gwelliant) a Helen Keatley (Cydgysylltydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

**Mae arweinyddiaeth sefydlog gref, a diwylliant o welliant parhaus, yn debygol iawn o gynnal gwelliant yn y dyfodol.**

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Penfro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Mae arweinyddiaeth gref hirsefydlog, sefydlogrwydd a gwerthoedd ymgorfforedig y Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hysbys y mae'n eu hwynebu 6

Mae gan y Cyngor hanes o arweinyddiaeth gorfforaethol gref a sefydlogrwydd sydd wedi sicrhau newid a gwelliant parhaus hyd yma 6

Mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella yn seiliedig ar flaenoriaethau, gwerthoedd a safonau clir sydd wedi'u hymgorffori yn y diwylliant corfforaethol 7

Mae trefniadau'r Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau hysbys 7

Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 8

Dengys dull y Cyngor o reoli a chefnogi gwelliant gryfderau penodol o ran arweinyddiaeth a gwerthoedd 8

Arweinyddiaeth gorfforaethol gref a gwerthoedd ymgorfforedig y Cyngor yw'r ffactorau allweddol o ran cyflawni bwriadau strategol y Cyngor 8

Yn gyffredinol, mae'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli adnoddau a phobl, a'i ddull o weithio mewn partneriaeth yn Sir Benfro, yn sylfaen dda ar gyfer cyflawni newid a gwelliant 9

Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu rhai agweddau ar weithio mewn partneriaeth a'r modd y mae'n rheoli ei bobl a'i berfformiad ymhellach 10

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

- Asesiad Corfforaethol – adolygiad o drefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad – i asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.

3 Yn y modd hwn gellir cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith ei Harchwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol '*Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*'. Mae CLILC, CIPFA a SOLACE hefyd wedi tynnu sylw hefyd at yr effaith y gallai gostyngiadau mewn gwariant ei chael ar lywodraeth leol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC, 'ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi – ni ellir cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig'. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Lluniwyd yr Asesiad Corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol yn unig a bwriedir iddo ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'

7 Daethom i'r casgliad bod arweinyddiaeth sefydlog gref, a diwylliant o welliant parhaus, yn debygol iawn o gynnal gwelliant yn y dyfodol.



8 Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:

- mae arweinyddiaeth gref hirsefydlog, sefydlogrwydd a gwerthoedd ymgorfforedig y Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hysbys y mae'n eu hwynebu;
- dengys dull y Cyngor o reoli a chefnogi gwelliant gryfderau penodol o ran arweinyddiaeth a gwerthoedd.

9 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

## Arolygiad Arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal Arolygiad Arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur nac argymell y dylai Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Argymhellion

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur.

# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae arweinyddiaeth gref hirsefydlog, sefydlogrwydd a gwerthoedd ymgorfforedig y Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hysbys y mae'n eu hwynebu

### Mae gan y Cyngor hanes o arweinyddiaeth gorfforaethol gref a sefydlogrwydd sydd wedi sicrhau newid a gwelliant parhaus hyd yma

12 Bu Prif Weithredwr y Cyngor yn y swydd ers 1995-96 ac mae nifer o aelodau o'i uwch dîm rheoli yn swyddogion hirsefydlog. Bu'r Cyngor yn wleidyddol sefydlog ers 1995-96,wedi'i arwain gan gynghorwyr annibynnol â mwyafrif mawr.

13 Manteisiodd arweinwyr y Cyngor ar y cyfle a gynigiwyd gan ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 i sefydlu diwylliant corfforaethol o sicrhau gwelliant cynyddrannol parhaus. Mae hyn wedi'u galluogi i barhau i nodi meysydd i'w gwella a blaengynllunio i fynd i'r afael â materion a phenderfyniadau anodd tra'n cyfyngu ar nifer y gwrthwynebiadau a sicrhau gwelliant parhaus. Ymhlith yr enghreifftiau mae eu rhaglen addysg i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion a moderneiddio ysgolion, tra'n cynnal safonau yn gyffredinol, a'u rhaglen gofal preswyl fwy diweddar i hyrwyddo annibyniaeth.

14 Ar 28 Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar Ddatganiadau Ariannol 2008-09, gan gadarnhau iddynt gael eu llunio yn unol â gofynion statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor.

15 Ar 30 Tachwedd 2009, cyhoeddodd Archwilydd Penodedig a Rheolwr Cydberthynas yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Blynyddol ar Ddatganiadau Ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 5 Chwefror 2010.

16 Materion allweddol i'r Cyngor bryd hynny oedd y dylai barhau i wneud gwelliannau a chydnabod yr angen i adolygu nifer o'i strategaethau a'i bolisïau i baratoi ar gyfer heriau a gofynion y dyfodol:

- roedd gwasanaethau yn perfformio'n dda ar y cyfan ond gellid eu gwella ymhellach drwy ddiweddaru neu egluro strategaethau a pholisïau gwasanaethau;
- roedd trefniadau corfforaethol y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau ac roedd yn gwneud defnydd da o dir ac adeiladau er bod lle o hyd i wella rhai elfennau o wybodaeth rheoli perfformiad.



## Mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella yn seiliedig ar flaenoriaethau, gwerthoedd a safonau clir sydd wedi'u hymgorffori yn y diwylliant corfforaethol

**17** Mae blaenoriaethau'r Cyngor yn glir ac mae cysylltiad agos rhyngddynt a blaenoriaethau a chanlyniadau partneriaeth y gymuned ehangach:

- Mae gan y Cyngor wyth thema flaenoriaeth i lywio ei weithgareddau a 26 o Amcanion Gwella ar draws y themâu hyn. Mae'r rhain yn darparu fframwaith a blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer gwella yn y tymor canolig i'r hirdymor. O dan yr Amcanion Gwella hyn, mae'r Cyngor wedi nodi camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu a nifer o dargedau i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2011.

- Mae'r themâu a'r rhan fwyaf o'r Amcanion Gwella a ddewiswyd gan y Cyngor yn adlewyrchu'r rhai a gynhwyswyd yng Nghynllun Cymunedol newydd Sir Benfro. Mae'r Cynllun Cymunedol yn seiliedig ar ddadansoddiad o wybodaeth ystadegol a thueddiadau sy'n bwysig yn lleol a barn trigolion, cynghorau cymuned a grwpiau diddordeb lleol.

**18** Er bod y themâu a'r amcanion hyn yn rhoi cyfeiriad ar gyfer gwella ymhellach, y ffactorau allweddol o ran sicrhau gwelliant parhaus yw tair egwyddor allweddol y Cyngor: canolbwyntio ar gwsmeriaid, un tîm a gwerth am arian. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hymgorffori yn y diwylliant a'r trefniadau corfforaethol.

**19** Mae Safon Diwylliant Sefydliadol a Dull Rheoli'r Cyngor, sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan ei swyddogion, hefyd wedi'i hymgorffori yn y diwylliant a'r trefniadau corfforaethol. Ynghyd â'r tair egwyddor allweddol, maent yn gosod fframwaith i'r Cyngor sicrhau gwelliant parhaus. Am fod y rhain wedi'u hatgyfnerthu'n gadarn dros nifer o flynyddoedd, maent bellach wedi'u hymgorffori yng ngwaith y Cyngor o ddydd i ddydd ac erbyn hyn ystyrir mai dyma 'ffordd Sir Benfro' o wneud busnes.

## Mae trefniadau'r Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau hysbys

**20** Mae'r Strategaeth Gymunedol newydd, y Cynllun Gwella, a Chynlluniau Gwella Gwasanaethau yn ystyried barn a blaenoriaethau partneriaid a dinasyddion. Aliniwyd y cynlluniau hyn i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei gamau gweithredu â blaenoriaeth a'i dargedau perfformiad, wyth thema â blaenoriaeth a 26 o Amcanion ar gyfer Gwella i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pobl Sir Benfro.

**21** Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod wedi cynnig cyfres eang o Amcanion ar gyfer Gwella ar gyfer 2010-11, yn hytrach na chanolbwyntio ei ymdrechion ar un neu ddau o feysydd, gan ei fod o'r farn bod y dull hwn yn adlewyrchu ei sefyllfa fel sefydliad a'i egwyddorion. Er bod 26 yn nifer fawr o Amcanion ar gyfer Gwella, mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, yn hyderus y gellir cyflawni'r amcanion hyn a'r camau gweithredu a'r targedau cysylltiedig.

**22** Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da ar hyn o bryd o ran datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'w gysylltu â'i gynlluniau a'i strategaethau newydd i gyflawni'r mesurau effeithlonrwydd ychwanegol sydd eu hangen arno dros y tair blynedd nesaf.

**23** Ei nod yw cyflawni gwelliant ym mhopeth a wna drwy barhau i wneud y newidiadau cynyddrannol a darbodus arferol yn y ffordd y mae'n gweithredu fel Cyngor cyfan. Mae'r dull corfforaethol hwn yn hirsefydlog ac wedi'i ymgorffori'n dda, ac fel y cyfryw mae'n golygu bod y cyngor mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau hysbys a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

# Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Dengys dull y Cyngor o reoli a chefnogi gwelliant gryfderau penodol o ran arweinyddiaeth a gwerthoedd

### Arweinyddiaeth gorfforaethol gref a gwerthoedd ymgorfforedig y Cyngor yw'r ffactorau allweddol o ran cyflawni bwriadau strategol y Cyngor

24 Gyda'i gilydd, mae'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd yn darparu arweinyddiaeth gorfforaethol gref ac yn cefnogi ei gilydd i sicrhau gwelliant parhaus yn 'ffordd Sir Benfro o weithredu'.

25 Mae gan y Cyngor weledigaeth strategol, cyfeiriad a gwerthoedd craidd clir a ymgorfforwyd drwyddi draw.

26 Mae'n canolbwyntio'n gryf ar gyflawni a chanlyniadau drwy newidiadau cynyddrannol, a ategwyd gan ei drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli perfformiad, ac mae ganddo hanes da o reoli disgwyliadau a gwneud penderfyniadau anodd:

- Y Cyngor oedd un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i ddechrau newid y ffordd yr oedd yn darparu gwasanaethau addysg i gyflawni addysg o ansawdd gwell mewn ffordd fwy effeithlon a chynaliadwy. Mae rheoleiddwyr wedi cydnabod bod ei ddull cynyddrannol o wella addysg ers 1996 wedi bod yn flaengar ac wedi'i reoli'n dda. Tra ei fod yn parhau â'i raglen o newid addysg, hyd yma, mae wedi arwain at addysg o ansawdd gwell ar y cyfan, a ddarparwyd mewn ffordd fwy effeithlon a chynaliadwy.
- Yn fwy diweddar, mae'r Cyngor wedi cymhwyso dull tebyg i ddechrau darparu gwell gwasanaethau i'r henoed mewn ffordd fwy costeffeithiol i alluogi pobl sydd angen gofal i fyw bywydau mwy annibynnol.
- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da i gyflawni'r rhan fwyaf o Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Mae'n cydnabod bod angen iddo atgyfnerthu ymhellach ei ddull o ymgynghori â thenantiaid, cyflwr stoc a chynlluniau rheoli asedau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae'n cynllunio adolygiad pellach o'r trefniadau rheoli a'r taliadau gwasanaeth presennol i'r Cyfrif Refeniw Tai a thybiaethau'r Cynllun Busnes.
- Mae'r Cyngor wedi defnyddio craffu yn effeithiol i gefnogi penderfyniadau allweddol ac mae'n cydnabod yr angen i ddefnyddio ei drefniadau craffu ac atebolrwydd i'w helpu i lywio a mynd i'r afael â heriau yn y dyfodol.

27 Mae'r arweinwyr yn cydnabod yr angen i gynyddu maint a chyflymder newid wrth wynebu'r heriau sydd o'u blaen, ac maent yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â phobl a chyfleu negeseuon yn effeithiol yn fewnol ac yn allanol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig o ran helpu'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus.



**Yn gyffredinol, mae'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli adnoddau a phobl, a'i ddull o weithio mewn partneriaeth yn Sir Benfro, yn sylfaen dda ar gyfer cyflawni newid a gwelliant**

28 Mae gan y Cyngor hanes cryf o gynllunio a rheolaeth ariannol corfforaethol effeithiol, ac mae'n rheoli ei asedau a'i adnoddau eraill yn dda. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa gref i ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig i fynd i'r afael â phwysau ariannol yn y dyfodol. Oherwydd gostyngiadau cenedlaethol mewn gwariant cyhoeddus, mae'r Cyngor yn rhagweld bwlch ariannu sylweddol dros y tair blynedd nesaf.

29 Er ei fod yn cydnabod y bydd yn waith heriol, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gyflawni effeithlonrwydd sylweddol drwy ddileu gwastraff a symleiddio strwythurau a phrosesau mewnol. Mae pob adran wedi cynnig opsiynau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd yn eu gwasanaethau. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i baratoi cynllun ariannol blaengar sy'n nodi effeithlonrwydd a gwariant lle bo'u hangen fwyaf, ac yn cysylltu adnoddau i'w blaenoriaethau ar gyfer gwella.

30 Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu a defnyddio staff, gyda dull cadarn o fynd i'r afael â staff sy'n perfformio'n wael a hyrwyddo trefniadau staffio darbodus. Mae proses Adolygu Perfformiad a rhaglen Rheoli Sir Benfro y Cyngor yn cael eu mireinio ymhellach i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n newid. Mae hyn yn cynnwys asesu ymddygiad rheolwyr ac arfarniadau 360 gradd.

31 Mae partneriaethau mewnol yn gweithio'n dda, ac mae gan y Cyngor syniad clir o'r hyn sydd angen ei gyflawni ar gyfer pobl Sir Benfro cyn iddo ymgysylltu'n llawn â phartneriaethau allanol.

32 Mae gan y Cyngor gydberthnasau da gyda'r rhan fwyaf o'i bartneriaid strategol allweddol yn Sir Benfro, ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i wella cydweithio ag eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ymhell cyn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol, roedd arweinwyr y Cyngor wedi sefydlu cydberthnasau cadarn â Phrif Weithredwyr nifer o bartneriaid strategol allweddol yn Sir Benfro, ac roedd yn cyfarfod â hwy yn rheolaidd. Tra ei fod yn parhau i ddatblygu'r cydberthnasau hyn, mae'n ymrwymedig i sicrhau cydberthnasau newydd er lles gwella cydweithio i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon i bobl Sir Benfro.

- Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi trefnu cydsecondiad arloesol o ran ei Gyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol â'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) gan fod y ddau bartner yn canolbwyntio ar atgyfnerthu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt i'r bobl a wasanaethant. Dull arbrofol yw hwn, ac mae'r Cyngor a'r BILI yn ymwybodol o bwysigrwydd sefydlu trefniadau llywodraethu priodol ac annog a chefnogi arloesedd ar yr un pryd . Ceir ymrwymiad i adolygu'r trefniant hwn yn barhaus a dysgu ohono, ac awydd i rannu'r gwersi a ddysgwyd. Er mai megis dechrau y mae'r secondiad, ceir arwyddion bod y trefniant yn dechrau cyflawni bwriadau gwella gwasanaethau cadarnhaol.

- Mae Pwyllgor Rheoli Gwastraff Rhanbarthol De-Orllewin Cymru, y mae'r Cyngor yn un o'r chwech o aelodau, wedi wynebu heriau o ran cydweithio dros y blynyddoedd diweddar. Er bod y rhanbarth yn wynebu heriau parhaus a heriau newydd o hyd, mae'r cynnydd diweddar a wnaed yn awgrymu parodrwydd i gydweithio.

- Mae'r Cyngor yn awyddus i sefydlu trefniadau a swyddi ar y cyd, lle y bo'n briodol, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac mae wedi llunio cynigion i wneud hynny.

- Defnyddir gwybodaeth ystadegol, a geir o fewn y Gronfa Ddata Partneriaeth Proffilio Cymunedol, i lywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys Cynllun Cymunedol newydd y sir.

- Mae'r Cynllun Cymunedol newydd yn cynnwys mesurau y gellir eu defnyddio – os cânt eu cyfuno â mesurau boddhad dinasyddion – i ddangos pa wahaniaeth y mae gweithredoedd y Cyngor a'i bartneriaid yn eu gwneud i fywydau pobl Sir Benfro.

## Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu rhai agweddau ar weithio mewn partneriaeth a'r modd y mae'n rheoli ei bobl a'i berfformiad ymhellach

33 Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i roi ffocws i waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i alluogi gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Benfro i nodi lle y gallai cydweithio sicrhau effeithlonrwydd.

34 Gan fod y Cyngor wedi cael rhai cydberthnasau hirsefydlog cryf â phartneriaid allweddol, roedd o'r farn na fyddai sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Lleol ffurfiol yn ychwanegu llawer mwy o werth. Rheolir y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan y Cyngor, ac mae'n adolygu'r trefniadau ar hyn o bryd i weld p'un a ellir sicrhau bod gan y Bwrdd ymdeimlad cliriach o ddiben a gwell gwerth. Mae cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ym mis Mehefin yn bwriadu ystyried y canlynol:

- sut y gellir datblygu'r meysydd â blaenoriaeth yng Nghytundeb Cyflawni Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ymhellach, yn cynnwys sut y gall gyflwyno'r newidiadau ynghynt i ddarparu mwy o dai fforddiadwy yn y dyfodol agos;

- ategu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol drwy wahodd nifer o sefydliadau eraill i drafod dichonoldeb mabwysiadu dull 'Total Place' o helpu ei gilydd i sicrhau effeithlonrwydd drwy gydweithio.

35 Mae'r Strategaeth Gymunedol newydd yn nodi 20 o gamau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer gwella gwaith partneriaeth yn Sir Benfro. Y canlyniadau disgwyliedig yw cyflawni gwell integreiddio a deialog, lleihau achosion o ddyblygu ymdrechion a lleihau costau, gwneud defnydd effeithiol o'r holl adnoddau, rheoli perfformiad ar draws y partneriaethau yn fwy effeithiol, gwella mynediad at y gwasanaethau a gwella ansawdd y gwasanaethau.

36 I ategu'r gwelliannau hyn i'r bartneriaeth, mae gwaith yn mynd rhagddo gan y Cyngor i atgyfnerthu agweddau ar ei drefniadau rheoli perfformiad ei hun ymhellach drwy:

- Ddatblygu mesurau canlyniad sy'n dangos p'un a yw'r Cyngor yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Sir Benfro. Mae ganddo nifer o



fesurau mewnbwn ac allbwn sy'n dangos faint y mae'n ei wneud a'i gynnydd, ond mae'n cydnabod yr angen i ddatblygu mwy o fesurau canlyniad i ddangos p'un a yw'n gwneud gwahaniaeth.

- Gwneud gwell defnydd o farn a boddhad dinasyddion, tenantiaid a rhanddeiliaid a gesglir ganddo ar draws adrannau a phartneriaethau i atgyfnerthu trefniadau cynllunio gwelliant ymhellach.

- Cysylltu cynlluniau strategol a gwella gwasanaethau â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig newydd a chynlluniau a blaenoriaethau allweddol eraill ar gyfer gwella.

37 Mae adran Gofal Cymdeithasol a Thai'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei threfniadau rheoli perfformiad drwy ei Bwrdd Rheoli Perfformiad a thrwy gynnal adolygiadau system o rai gwasanaethau, yn cynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, i ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

38 Mae'r Cyngor wedi gwella ei gydberthnasau ag Undebau Llafur yn ddiweddar ac mae'n cydnabod ei fod yn wynebu rhai heriau sylweddol o ran rheoli pobl ym meysydd Gwerthuso Swyddi a Statws Sengl. Mae hefyd yn sylweddoli bod yn rhaid iddo ddefnyddio rhai systemau yn fwy effeithiol ac adeiladu ar waith blaenorol i gysylltu gweithgarwch cynllunio'r gweithlu â'i gynlluniau ar gyfer gwella a'i gynlluniau ariannol yn enwedig ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol.